Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Cyngor y Dyfodol a Thrawsnewid

**Ystafell 235 (Ystafell Gyfarfod Cynghorwyr) - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 30 Ionawr 2018 am 9.30 am**

**Yn Bresennol**: Bu'r Cynghorydd M B Lewis (Cadeirydd Dros Dro) yn llywyddu dros gofnodion 25 - 28 (eitemau 1-4).
Bu'r Cynghorydd E T Kirchner (Chair) yn llywyddu dros gofnodion 29 a 30 (Eitemau 5 a 6)

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| J A Hale | P K Jones | M B Lewis |
| S Pritchard | A H Stevens | L J Tyler-Lloyd |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Vicky Thomas | Sustainable Swansea Programme Manager |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C R Evans, T J Hennegan a C A Holley

---

## 25 Ethol Cadeirydd Dros Dro.

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd M B Lewis yn Gadeirydd Dros Dro.

**Bu'r Cynghorydd M B Lewis, y Cadeirydd Dros Dro, yn llywyddu.**

## 26 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 27 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi - Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2017 fel cofnod cywir.

## 28 Y Diweddaraf am y Gweithdy Caffael.

Darparodd Rheolwr Rhaglen Abertawe Gynaliadwy'r wybodaeth ddiweddaraf am y gweithdy caffael.

Roedd y gweithdy'n canolbwyntio ar y canlynol: -

- Rhwystrau i fusnesau lleol sy'n ceisio ennill contractau lleol
- Sut i nodi cyflenwyr lleol
- Gofynion deddfwriaethol

Awgrymwyd y diffiniad canlynol o 'gyflenwr lleol' yn y gweithdy: -
*"O fewn y ffiniau rhanbarthol gyda phwyslais ar gyflogi pobl leol o fewn y ffiniau daearyddol a gaiff eu sefydlu o ganlyniad i gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol."*

Y canlynol oedd y camau gweithredu allweddol a nodwyd: -

1) Datblygu a gwella hysbysebu a marchnata;
2) Y posibilrwydd o ddarparu gwasanaeth i gynorthwyo cyflenwyr lleol yn y broses gaffael; a
3) Bydd y pwyllgor yn darparu argymhellion i'r Gweithgor Cyfansoddiadol er mwyn rhoi'r newidiadau angenrheidiol ar waith.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 29 Trafodaeth ar Amser Cyfarfodydd.

Trafododd aelodau'r pwyllgor eu hargaeledd a'r amser gorau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

**Penderfynwyd** symud cyfarfodydd i 14:00 yn y dyfodol os oes modd.

## 30 Cynllun Gwaith 2017 - 2018.

Cyflwynodd y Cadeirydd Gynllun Gwaith 2017/18 i'w ystyried.

Nododd y pwyllgor fod ganddo ddiddordeb mawr yn y diweddariad am 'gyfeillion parciau' a pherchnogaeth gymunedol. Gofynnwyd i Reolwr Rhaglen Abertawe Gynaliadwy drafod â'r Pennaeth Rheoli Gwastraff i weld a ellid symud y diweddariad i'r cyfarfod nesaf.

**Penderfynwyd** symud y diweddariad am 'gyfeillion parciau' a pherchnogaeth gymunedol i'r cyfarfod ar 27 Chwefror 2018 os oes modd.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.15 am

**Cadeirydd**